OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2010 Rhif 1822 (Cy.179)

# ANIFEILIAID, CYMRU

## Rheoliadau Enseffalopathïau Sbyngffurf Trosglwyddadwy (Cymru) (Diwygio) 2010



| | |
|---|---|
| *Gwnaed - - - -* | *14 Gorffennaf 2010* |
| *Gosodwyd gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru - -* | *16 Gorffennaf 2010* |
| *Y n dod i rym - -* | *9 Awst 2010* |



Mae Gweinidogion Cymru wedi'u dynodi(**1**) at ddibenion adran 2(2) o Ddeddf y Cymunedau Ewropeaidd 1972(**2**) o ran mesurau yn y meysydd milfeddygol a ffytoiechydol ar gyfer diogelu iechyd y cyhoedd.

Mae Gweinidogion Cymru yn gwneud y Rheoliadau a ganlyn o dan y pwerau a roddir gan adran 2(2) o Ddeddf y Cymunedau Ewropeaidd 1972.

### Enwi, cymhwyso a chychwyn

**1.**—(1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Enseffalopathïau Sbyngffurf Trosglwyddadwy (Cymru) (Diwygio) 2010.

(2) Mae'r Rheoliadau hyn yn gymwys o ran Cymru a deuant i rym ar 9 Awst 2010.

### Diwygio Rheoliadau Enseffalopathïau Sbyngffurf Trosglwyddadwy (Cymru) 2008

**2.**—(1) Diwygir Rheoliadau Enseffalopathïau Sbyngffurf Trosglwyddadwy (Cymru) 2008(**3**) ("y prif Reoliadau") yn unol â pharagraff (2).

(2) Yn lle paragraff 4(3) o Atodlen 2 i'r prif Reoliadau, rhodder—

"**4.**—(3) Ystyr "labordy profi cymeradwy" yw—

(a) labordy a gymeradwywyd o dan y paragraff hwn;

(b) labordy a gymeradwywyd o dan ddeddfwriaeth gyfatebol mewn rhan arall o'r Deyrnas Unedig;

(c) un o Labordai Cyfeirio Cenedlaethol yr UE; neu

(**1**) O.S. 2008/1792.
(**2**) 1972 p. 68.
(**3**) O.S. 2008/3154 (Cy.282).

(ch) labordy diagnostig a gymeradwywyd gan Aelod-wladwriaeth yn unol ag Atodiad X i Rheoliad TSE y Gymuned.".

*Elin Jones*
Y Gweinidog dros Faterion Gwledig, un o Weinidogion Cymru

14 Gorffennaf 2010

## EXPLANATORY NOTE

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Rheoliadau)*

Mae'r Rheoliadau hyn yn diwygio Rheoliadau Enseffalopathïau Sbyngffurf Trosglwyddadwy (Cymru) 2008, O.S. 2008/3154 (Cy.282) ("y prif Reoliadau") sy'n gorfodi Rheoliad (EC) Rhif 999/2001 Senedd Ewrop a'r Cyngor sy'n gosod rheolau i atal, rheoli a dileu rhai mathau o enseffalopathïau sbyngffurf trosglwyddadwy (OJ Rhif L 147, 31.5.2001, t.1) fel y'i diwygiwyd.

O dan y prif Reoliadau, mae'n ofynnol i weithredwyr lladd-dai gyflwyno samplau gwartheg i labordy a gymeradwywyd i'w profi ar gyfer TSE. Mae'r Rheoliadau hyn yn helaethu'r diffiniad o "labordy a gymeradwywyd" yn y prif Reoliadau. Bydd y diwygiad yn galluogi gweithredwyr lladd-dai (petaent yn dewis gwneud hynny) i anfon samplau o goesyn ymennydd gwartheg i un o Labordai Cyfeirio Cenedlaethol yr Undeb Ewropeaidd i'w brofi ar gyfer TSE neu i labordai a gymeradwywyd gan yr awdurdod cymwys mewn Aelod-wladwriaeth arall yn yr Undeb Ewropeaidd.

Ni pharatowyd asesiad effaith rheoleiddiol gan mai ychydig iawn o effaith a gaiff yr offeryn hwn ar gostau busnes.